Hen Bethau

Rai dyddiau ar ôl dechrau'r flwyddyn
daw hi'n amser i dynnu i lawr y celyn
a dodi'r Nadolig a fu mewn bocsys
a'i gario i fyny'r atig.

Daeth eto heibio yr hen ddefod honno
o blygu lliwiau a rhoi addurniadau
y llawenhau a fu yn ôl yn eu llefydd.

Ac yno dan do y tŷ
y mae rhywun yn taro
ar ddarnau o Nadoligau a fu
sy'n dal yn yr atig o hyd.

Y mae yma Action Man
o hyd yn arwrol, yn ddarn o blentyndod
na ddaw byth yn ei ôl.

Y mae yma Donka, lorri
o hyd yn gryf a heb ei thorri
trwy'r holl haldio a fu arni.

Y mae yma goetj, mae yma ddoli
y bu'r gofal amdani'n dyner
dro byd, dro byd yn ôl.

A daw rhywun i lawr o'r atig
ag atgofion sy'n tywynnu gan lawenydd byd a fu,
a hwnnw yn gymysg â rhywbeth prudd
am bethau, am byth, a aeth heibio.

Gwyn Thomas

Mae hon yn gerdd, fel ‘A Hefyd, Angylion’, sy’n mynd â ni i un adeg arbennig o’r flwyddyn, sef y cyfnod sy’n dilyn y Nadolig pan mae’r addurniadau’n cael eu rhoi i gadw am flwyddyn arall.

Wrth fynd â’r addurniadau i’r atig, mae rhywun yn dod o hyd i gymaint o bethau sydd wedi cael eu cadw yna, ac wedi cael eu hanghofio.

Ond o fod wedi bod yno, ac wedi gweld rhai o’r pethau hyn, mae’r gorffennol yn dod nôl yn fyw. Mae yna dristwch a llawenydd yn y profiad hwn. Llawenydd o gael ein hatgoffa o rai o’r pethau yn ein gorffennol ni, a thristwch na ddaw’r gorffennol hwnnw byth yn ei ôl.